No.

# IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU STATUDOL

Cofnodion cyfarfod o bell a gynhaliwyd ar 19 Rhagfyr, 2023.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Cynghorwyr P. Drake, H.C. Hamilton a J.M. Norman.

Hefyd yn bresennol: Mae S.M. Case (yr Ymgeisydd), K. Evans (Rheolwr Tîm Trwyddedu, Cyngor Bro Morgannwg), P.C. J. Jones (Heddlu De Cymru), R. Price (Swyddog Cyfreithiol, Cyngor Bro Morgannwg), D. Sheppard (yn cynrychioli'r Ymgeisydd) ac M. Swindell (Swyddog Gwasanaethau Cabinet a Phwyllgorau, Cyngor Bro Morgannwg)

(a) Cyhoeddiad -

Cyn cychwyn busnes y Pwyllgor, darllenodd y Cadeirydd y datganiad a ganlyn: "A gaf i atgoffa pawb sy'n bresennol y bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw yn ogystal â'i recordio trwy'r rhyngrwyd ac mae'r recordiad hwn wedi'i archifo i'w weld yn y dyfodol."

(b) Penodi Cadeirydd –

PENDERFYNWYD - Ethol y Cynghorydd P. Drake yn Gadeirydd am gyfnod gwrandawiad yr Is-bwyllgor.

(c) Datganiadau Buddiant –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

(d) Gwrthwynebiad i Rybudd Digwyddiad Dros Dro ar gyfer Bar Cubana (AT) -

Croesawodd y Cadeirydd y rhai a oedd yn bresennol i wrandawiad yr Is-bwyllgor a diolchodd i'r Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chabinet am gyflwyno pawb.

Yn dilyn hynny, gwahoddodd y Cadeirydd Reolwr y Tîm Trwyddedu i gyflwyno'r adroddiad i'r Is-bwyllgor, a ddywedodd mai diben yr adroddiad oedd ystyried a phenderfynu ar hysbysiad gwrthwynebu a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru mewn ymateb i Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro a gyflwynwyd i'r Awdurdod Trwyddedu.

Cyflwynodd y Swyddog grynodeb byr o'r adroddiad i'r Aelodau, gan ddweud bod yr Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn dau Hysbysiad Digwyddiad Dros Dro (HDDD) ar 7 ac 8 Rhagfyr 2023 yn y drefn honno gan ddefnyddiwr y safle mewn perthynas â Cubana’s Bar, 7 Broad Street, Y Barri, Bro Morgannwg.

Dywedodd defnyddiwr y safle yn y ddau Hysbysiad fod y ceisiadau'n cyfeirio at "Estyn oriau ar gyfer cyfnod yr ŵyl, gan gynnwys manwerthu alcohol ac adloniant wedi’i reoleiddio. Byddai holl amodau'r drwydded safle yn berthnasol, gan gynnwys staff diogelwch i wisgo siacedi llachar ar adeg cau’r safle i reoli’r broses o wasgaru cwsmeriaid." Disgrifiwyd yr estyniad i’r oriau a'r dyddiadau cysylltiedig ar gyfer pob un o'r HDDDau ym mharagraffau 2.2 a 2.4 yr adroddiad.

Roedd gan y safle drwydded safle ar gyfer manwerthu alcohol (i'w yfed ar y safle), adloniant wedi’i reoleiddio ar ffurf cerddoriaeth fyw (dan do), cerddoriaeth wedi'i recordio (dan do), perfformiad dawns (dan do) ac unrhyw beth o ddisgrifiad tebyg (dan do). Disgrifiwyd yr oriau cysylltiedig ar gyfer y Drwydded Safle ym mharagraff 2.5 yr adroddiad.

Gellid dod o hyd i'r amodau ynghlwm wrth y drwydded safle yn Atodiad A yr adroddiad.

Cyflwynwyd copïau o'r HDDDau i Heddlu De Cymru a thîm Iechyd yr Amgylchedd y Cyngor o fewn y Gwasanaethau Rheoliadol a Rennir a chyflwynodd Heddlu De Cymru Hysbysiadau Gwrthwynebu i'r ddau HDDD ar gyfer Cubana’s Bar ar 11 Rhagfyr 2023. Roedd copïau ohonynt yn Atodiad B yr adroddiad.

Yn dilyn hynny, derbyniwyd gwybodaeth atodol gan yr Heddlu a oedd wedi'i dosbarthu i bob parti cyn y cyfarfod ac a fyddai ar gael ar-lein cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y cyfarfod.

Dywedodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu, gan nad oedd y ddau barti yn gallu dod i gytundeb, fod gofyn i'r Is-bwyllgor Trwyddedu ystyried y pwyntiau a godwyd yn yr Hysbysiadau Gwrthwynebu a gwneud penderfyniad ar gyfer pob un o'r HDDDau.

Ar ôl ystyried yr Hysbysiadau Gwrthwynebu, roedd gan yr Is-bwyllgor yr opsiynau canlynol ar gael:

a) Caniatáu'r gweithgareddau trwyddedadwy fel y nodwyd yn y HDDDau.
b) Pe bai’r HDDDau’n gysylltiedig â safle trwyddedig, gallai’r Awdurdod Trwyddedu hefyd osod un neu fwy o amodau cyfredol y drwydded ar y HDDDau (i'r graddau nad oedd amodau o'r fath yn anghyson â'r digwyddiad) pe bai o'r farn bod hyn yn briodol ar gyfer hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, neu;
c) Pe bai o'r farn y byddai'r digwyddiadau'n tanseilio'r amcanion trwyddedu ac na ddylid eu cynnal, gallai gyhoeddi gwrth-hysbysiad i un o’r digwyddiadau neu i’r ddau ohonynt.

Yna gwahoddodd y Cadeirydd Gynrychiolydd yr Ymgeisydd, Mr D. Sheppard, i gyflwyno’r achos.

Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd ei fod wedi dosbarthu rhywfaint o wybodaeth bellach i'r Is-bwyllgor ynghylch pam oedd yr ymgeisydd o'r farn na ddylai'r gwrthwynebiadau i'r Hysbysiadau fod ar waith, a chadarnhawyd bod hyn wedi'i rannu â phob parti. Roedd yn bresennol gyda'r Ymgeisydd a oedd â dros 30 mlynedd o brofiad trwyddedu ac wedi cyflwyno'r HDDDau i estyn cyfnod yr ŵyl i gwsmeriaid ac i staff ennill mwy dros gyfnod y gwyliau.

Roedd sgyrsiau cychwynnol gyda'r Heddlu wedi bod yn agored ac roeddent wedi ystyried yr estyniad i 5.00am ond ers hynny roeddent wedi codi pwyntiau am anhrefn. Fel safle a oedd eisoes yn gweithredu hyd at 3.30am, roedd eisoes yn barod i ddarparu ar gyfer amser gorffen diweddarach ac nid oedd y digwyddiadau a gyflwynwyd gan yr Heddlu i gyd yn berthnasol i'r safle, e.e. roedd un yn ymwneud â mater o gam-drin domestig a ddigwyddodd y diwrnod canlynol ac roedd y lleill ar y pwynt mynediad pan wrthodwyd mynediad, felly nid oeddent yn gysylltiedig â'r lleoliad ei hun.

Un maes a oedd yn peri pryder oedd bod lleoliadau eraill wedi cael trwydded safle a bod Trwydded Dros Dro wedi'i rhoi i safle a oedd dan gais ar hyn o bryd, i 4.00am, heb unrhyw wrthwynebiadau yn cael eu cyflwyno. Nid oedd unrhyw sylwadau gan Iechyd yr Amgylchedd ynghylch sŵn a gwrthwynebodd yr Heddlu ar sail tanseilio'r amcanion trwyddedu yr oedd y safle eisoes yn gweithredu yn unol â nhw. Nid oedd unrhyw un o'r gwrthwynebiadau wedi arwain at euogfarn ac nid oeddent yn uniongyrchol gysylltiedig â chwsmeriaid yn gadael y safle. Nid oedd yr Heddlu wedi gwrthwynebu estyniad i drwydded safle mewn safle arall ac roedd eu gwrthwynebiadau i'r HDDDau hyn yn ymwneud â'r gallu i reoli sawl ardal yn hytrach na bod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r safle ei hun.

Roedd y HDDDau'n ymwneud ag estyniadau byr dros bythefnos cyfnod y gwyliau ac ni fyddent yn gosod cynsail ar gyfer unrhyw amrywiadau i'r drwydded safle gyfredol wrth symud ymlaen gan mai dim ond ar gyfer cyfnod y gwyliau yr oeddent.

Nid oedd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd yn credu bod digon o dystiolaeth i ddweud bod trosedd ac anhrefn yn effeithio ar y safle ac yn gyfreithiol dan y Ddeddf Drwyddedu fod yr amcanion trwyddedu yn cael eu tanseilio mewn unrhyw ffordd gan eu bod yn cael eu hyrwyddo'n llawn gan y safle.

Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r holl bartïon a oedd yn bresennol a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau i'w gofyn i gynrychiolydd yr Ymgeisydd, a gofynnodd y Cynghorydd Norman a oedd y safle'n hapus gyda'r estyniad i 4.00am fel y cefnogwyd gan yr Heddlu, neu a oedd yn dal i gynnig gofyn am estyniad i 5.00am. Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod y cynnig yn seiliedig ar argaeledd yr Heddlu mewn gwahanol ardaloedd ar wahanol adegau. Rhoddwyd y drwydded dros dro arall lle nad oedd unrhyw weithrediadau sefydledig hanesyddol ac nad oedd yn deg i safle a oedd eisoes wedi ei sefydlu a oedd wedi profi y gallai weithredu'n llwyddiannus tan 3.30am. Gallai'r ddau'n gweithredu tan 4.00am achosi problemau o bosibl i'r Heddlu ac argaeledd tacsis hefyd.

Dywedodd y Cynghorydd Norman fod y HDDDau am sawl diwrnod dros gyfnod y gwyliau yr un yn hytrach nag un digwyddiad. Cadarnhaodd Cynrychiolydd yr

Ymgeisydd y gallai amodau HDDD gynnwys uchafswm o 7 diwrnod y drwydded yn gyfreithiol, felly byddai'r ddau HDDD a gyflwynwyd yn cwmpasu'r dyddiau y gofynnwyd amdanynt dros gyfnod y Nadolig.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman a oedd unrhyw safle arall yn lleol a oedd â thrwydded 4.00am neu 5.00am debyg. Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod un safle dan gais ar draws y ffordd i safle'r Ymgeisydd, ond ei fod yn credu mai'r unig drwydded 4.00am a oedd yn dal yn weithredol oedd ar gyfer Finnegans Inn ar Ynys y Barri, ond nid oedd yn siŵr a oedd hynny'n dal i gael ei ddefnyddio. Roedd gan rai lleoliadau cyfagos eraill drwyddedau 3.00am.

Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd nad dod â phobl i Cubana’s Bar o leoliadau eraill oedd bwriad y ceisiadau, ond er budd cwsmeriaid a oedd eisoes yn mynd i’r lleoliad a chymhelliant i'w cadw yn hytrach nag annog eraill. Roedd polisïau llym eisoes ynglŷn â gadael i bobl fynd i mewn.

Dywedodd y Cynghorydd Hamilton fod Cynrychiolydd yr Ymgeisydd wedi dweud nad oedd yr Ymgeisydd am annog pobl i ddod o leoliadau eraill ond o ganlyniad byddai estyn yr oriau agor yn rhoi digon o amser i bobl fynd i mewn i'r safle. Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd mai’r term a ddefnyddiwyd oedd 'drifft' sy'n golygu y byddai staff diogelwch mewn dillad llachar i’w gweld yn annog pobl i wasgaru pan oedd y noson yn dod i ben ac yna’n rheoli pobl a oedd yn symud ymlaen. Cafodd symud pobl ei annog a'i brofi yng Nghaerdydd yn llwyddiannus. Ni fyddai pobl o leoliadau eraill yn cael eu hannog i geisio mynd i mewn i’r safle am 4.00am, y bwriad oedd annog cwsmeriaid cyfredol i aros yn y lleoliad ac yna eu gwasgaru'n ddiogel.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman a oedd amser cau o ran gadael i bobl fynd i mewn i'r lleoliad. Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd mai'r amser cau o ran gadael i bobl fynd i mewn oedd 1.30am. Cyfeiriodd y Cadeirydd at y polisi o ran gadael i bobl fynd i mewn a oedd wedi'i gynnwys yn Atodiad A yr adroddiad a oedd yn nodi nad oedd pobl yn cael mynd i mewn neu nôl i mewn i'r safle ar ôl yr amser hwnnw, a gofynnodd a fyddai'r sefyllfa honno'n parhau pe bai'r HDDDau yn cael eu cytuno. Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod hynny'n gywir ac y byddai'n parhau yn ei le ac y byddai'n cael ei wneud yn glir i'r cwsmeriaid.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd unrhyw gwestiynau pellach i Gynrychiolydd yr Ymgeisydd, nid oedd unrhyw gwestiynau. O'r herwydd, gofynnodd y Cadeirydd i'r achos i'r Awdurdod Cyfrifol, yn yr achos hwn Heddlu De Cymru, gael ei wneud.

Dywedodd y Cwnstabl Jones wrth yr Is-bwyllgor y byddai'n cyflwyno'r achos ar ran ei gydweithiwr, y Cwnstabl McCarthy a oedd wedi gwneud y gwrthwynebiad yn wreiddiol. Roedd y HDDDau yn cynnwys yr un estyniadau ac roedd amodau yn cael eu dilyn fel y disgrifiwyd yn y drwydded gyfredol. Teimlai Heddlu De Cymru na fyddai'r amcanion trwyddedu yn cael eu cadarnhau pe bai'r HDDDau’n cael eu cymeradwyo heb unrhyw fesur ychwanegol ar waith. Po hwyraf y parhaodd y safle hwnnw ar agor, y mwyaf o siawns oedd i bobl yfed ac i ddigwyddiadau mwy difrifol ddigwydd ar ddiwedd y nos.

Roedd digwyddiadau'n ymwneud â'r safle ac er bod rhai y tu allan i'r safle ei hun, ni fyddent wedi digwydd pe bai'r safle ar gau. Roedd y digwyddiadau y cyfeiriwyd atynt yn gysylltiedig â Cubana's Bar ac achosodd y cyfnod estynedig o 3.00am i 5.00am bryderon i'r Heddlu oherwydd y cynnydd mewn ymosodiadau domestig, problemau gyda staff drws, ac ati, a heb sicrwydd digonol gan yr Ymgeisydd, teimlwyd na ellid cefnogi'r ceisiadau am y HDDDau. Roedd estyniad i 4.00am yn gynnig y byddai Heddlu De Cymru yn ei gefnogi. Nid oedd y gwrthwynebiad yn seiliedig ar y galw am yr Heddlu gan nad oedd hynny wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Trwyddedu. Gallai estyniad i 5.00am gydag amod ar gyfer gadael i'r cwsmeriaid olaf fynd i mewn am 1.30am olygu na fyddai unrhyw beth gan gwsmeriaid i'w wneud ond dawnsio ac yfed am dair awr a hanner, a allai achosi problemau i ddigwydd.

Cyfeiriodd y Cwnstabl Jones at y cais arall am drwydded gan barti arall a grybwyllwyd gan Gynrychiolydd yr Ymgeisydd yn flaenorol. Roedd y cais hwnnw bellach wedi'i dynnu'n ôl ac felly nid oedd y materion gyda thacsis yn ystyriaeth mwyach. Cyfeiriodd hefyd at osod cynseiliau y cyfeiriwyd ato'n gynharach; byddai cymeradwyo'r HDDDau yn gosod cynsail gan y gallai ymgeiswyr eraill wneud yr un achosion yn y dyfodol.

Ni ofynnwyd cwestiynau i'r Cwnstabl Jones ynglŷn â'r dogfennau gwrthwynebu a gyflwynwyd.

Daeth y Cwnstabl Jones i'r casgliad mai barn Heddlu De Cymru, ar ôl trafodaeth gyda'r Uwch Dîm Rheoli, oedd nad oedd unrhyw safle ar agor mor hwyr â hynny yn y lleoliad hwnnw ac er y byddai'n achosi problem gydag argaeledd yr Heddlu, sail y gwrthwynebiad oedd pryder gan yr Uwch Dîm Rheoli am y siawns uwch o broblemau oherwydd oriau agor diweddarach, a'r gwrthwynebiadau a gyflwynwyd.

Yna gofynnodd y Cadeirydd i'r holl bartïon a oedd yn bresennol a oedd ganddynt unrhyw gwestiynau i'w gofyn i'r Awdurdod Cyfrifol, a gofynnodd y Cynghorydd Norman iddo am y digwyddiadau a adroddwyd ac a oedd unrhyw ddigwyddiadau eraill o'r fath wedi'u hadrodd yn yr un ardal. Dywedodd y Cwnstabl Jones y byddai chwiliadau'n ymwneud â safle penodol yn hytrach nag ardal, ac felly nid oedd ganddo'r wybodaeth honno ar gael oherwydd proses gyflym y gwrandawiad gan nad oedd amser i chwilio â llaw. Defnyddiwyd system goleuadau traffig ar gyfer y tua 4,000 o drwyddedau a oedd ar waith ar gyfer Caerdydd a'r Fro ac adolygwyd pob digwyddiad y diwrnod canlynol a phriodolwyd digwyddiadau i safleoedd penodol.

Gofynnodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd am y system goleuadau traffig gan nad oedd yn ymwybodol o hynny ac a oedd hynny'n system Heddlu De Cymru yn hytrach na system drwyddedu. Dywedodd y Cwnstabl Jones ei fod yn ffordd wedi'i chymeradwyo gan Gyngor Cenedlaethol Penaethiaid yr Heddlu o fonitro digwyddiadau o fewn safleoedd yn deg, ond ni chafodd unrhyw effaith ar y gwrandawiad. Gofynnodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd ble roedd Cubana's Bar yn sefyll o ran y system goleuadau traffig ar hyn o bryd. Dywedodd y Cwnstabl Jones nad oedd ganddo'r wybodaeth honno wrth law ond y byddai'n hapus i'w rhoi. Gofynnodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd a fyddai safleoedd yn cael gwybod pe bai unrhyw newid o ran eu safle ar y system goleuadau traffig. Dywedodd y

Cwnstabl Jones y byddai hysbysiad yn cael ei dderbyn pe bai safle'n cael ei symud i Oren neu Goch  Tybiodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd, gan nad oedd hysbysiad o'r fath wedi ei dderbyn, fod Cubana's Bar yn wyrdd.  Dywedodd y Cwnstabl Jones unwaith eto nad oedd yn ymwybodol ond ei fod yn hapus i roi'r manylion hynny.

Heb unrhyw gwestiynau pellach gan unrhyw barti na sylwadau pellach gan bartïon eraill â diddordeb, gwahoddodd y Cadeirydd y cynrychiolwyr i grynhoi eu sylwadau.

Dywedodd y Prif Gyfreithiwr pe bai pob parti wedi dweud popeth oedd wedi dymuno ei ddweud yna gallai'r Is-bwyllgor ystyried ei benderfyniad.

Gofynnodd y Cynghorydd Hamilton i Gynrychiolydd yr Ymgeisydd a oedd yn fodlon ac wedi cael cyfle llawn i gyflwyno ei achos.  Cadarnhaodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd ei fod yn fodlon.

Gofynnodd y Cynghorydd Norman i Gynrychiolydd yr Ymgeisydd a oedd y ffaith ei fod bellach wedi cael gwybod bod y safle arall wedi tynnu'n ôl ei gais am drwydded 4.00am yn gwneud unrhyw wahaniaeth i'w gais ei hun.  Dywedodd Cynrychiolydd yr Ymgeisydd fod hynny'n dibynnu ar a oedd yr HDDD wedi'i dynnu'n ôl, fodd bynnag, byddai'n well gan yr Ymgeisydd wneud cais am fwy na'r estyniad hanner awr yr oedd yr Heddlu wedi'i gefnogi a chwarae cerddoriaeth hyd at 4.00am ac yna galluogi cwsmeriaid i symud ymlaen yn ddiogel.

Cadarnhaodd Rheolwr y Tîm Trwyddedu fod y safle arall y cyfeiriwyd ato wedi tynnu ei gais am drwydded safle newydd yn ôl, ond arhosodd ei gais am HDDD yn ei le ar gyfer 4.00am.  Ni dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau gan yr Heddlu nac Iechyd yr Amgylchedd.

Heb unrhyw bartïon eraill i ymgynghori â nhw, a heb gwestiynau pellach gan yr Is-bwyllgor, cadarnhaodd y Swyddog Cyfreithiol y byddai'r Is-bwyllgor yn trafod yn breifat, gyda'r penderfyniad ar y cais yn cael ei roi i bob parti cyn gynted â phosibl ar ôl y cyfarfod o ystyried yr amserlenni dan sylw a chyda chadarnhad ysgrifenedig o resymau'r Is-bwyllgor i ddilyn.

Yn dilyn hyn, gwnaeth pawb a oedd yn bresennol ddatgysylltu o'r gwrandawiad o bell, fel y cadarnhawyd gan y Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor a Chabinet, a gwnaeth yr Is-bwyllgor Trwyddedu drafod y cais yn breifat.

PENDERFYNWYD – Yn dilyn ystyried y ceisiadau am HDDDau yng nghyfarfod yr Is-bwyllgor Trwyddedu, cytunodd yr Is-bwyllgor yn unfrydol i gymeradwyo'r ddau gais a wnaethpwyd ac ychwanegu atynt amodau'r safle gydag amod ychwanegol na fydd unrhyw un yn cael mynd i mewn neu nôl i mewn i'r safle ar ôl 1.30am.

<u>Y rheswm dros y penderfyniad</u>

Wrth ddod i'w benderfyniad, roedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod y gwrthwynebiadau a gyflwynwyd gan Heddlu De Cymru yn amwys eu natur, heb fanylion ac nad oeddent yn codi pryderon am y safle’n gweithredu'n wael neu'n cael ei gamreoli ar hyn o bryd.  Ni ddaeth yr Is-bwyllgor i'r casgliad y byddai estyniad o ddwy awr yn arwain at gynnydd mewn trosedd ac anhrefn yn seiliedig ar y sylwadau a gyflwynwyd gan yr ymgeisydd.